

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a dros y rhwydwaith fideo am 10.00 – 12.10 ar 24 Hydref 2018

Yn bresennol:

Aelodau: William Callaway (Cadeirydd)
Peter Curran
Yr Athro Iwan Davies
Gareth Eyres
Gareth Pierce

Archwilwyr: Andrew Howells, PriceWaterhouseCoopers (Archwilwyr allanol)
Aled Thomas, PriceWaterhouseCoopers (Archwilwyr allanol)
Carol Warburton, Baldwins (Archwilwyr mewnol)

Swyddogion: Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Suzanne Lewis, Rheolwr Gweithredu
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Ymddiheuriadau: Dr Haydn E Edwards, Cadeirydd y Coleg
Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Rhodri Llwyd Morgan

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Datganodd William Callaway, Cadeirydd y pwyllgor, mai cwmni TIAA yw Archwilwyr Mewnol Prifysgol De Cymru.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a Materion yn Codi	<p>3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018, fel cofnod cywir.</p> <p>3.2 Adroddwyd bod y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn y cofnodion naill ai wedi'u gwireddu neu fod yr eitem yn ymddangos ar yr agenda.</p> <p>3.3 <u>Eitem 3.4 – Penodi archwilwyr mewnol.</u> Gan nad yw cwmni Baldwins yn gallu gweithredu fel archwilwyr mewnol ar ôl 2018/19 argymhellwyd dechrau'r broses o dendro ar gyfer archwilwyr mewnol newydd. Cytunodd Peter Curran a Gareth Eyres i fod yn rhan o'r broses tendro a chyfweld. Trafodwyd hyd y contract, amserlen gwaith a natur gwaith yr archwilwyr mewnol sef i archwilio cydymffurfiad yn unig neu archwilio cydymffurfiad a chyngror sydd yn cynnig gwerth ychwanegol. Adroddodd y swyddogion mai tendro trwy wefan Sell2Wales yw ein harfer. Nododd Peter Curran y dylid ystyried defnyddio proses dendro OJEU (Official Journal of the European Union). Trafodwyd yn ogystal prinder darparwyr. Cytunwyd i adael y swyddogion, Peter Curran a Gareth Eyres i gytuno ar y fanyleb tendro ac adrodd i'r pwyllgor nesaf.</p> <p>3.4 <u>Eitem 5.4 – Mesuryddion perfformiad.</u> Nodwyd y byddai mesuryddion perfformiad yn cael eu cytuno yn sgil penodi archwilwyr mewnol newydd.</p>	<p>CR i wirio trothwyon OJEU</p> <p>Drafftio tendr a gweithredu'r broses dendro Adrodd i'r PAR nesaf</p> <p>Cytuno mesuryddion perfformiad ar gyfer archwilwyr mewnol</p>	<p>Tachwedd 2018</p> <p>Yn syth</p> <p>22 Chwefror 2019</p> <p>Chwefror 2019</p>
4. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg (Eitem 5)	<p>4.1 Cyflwynwyd cylch gorchwyl a rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <p>4.2 Adroddwyd bod pob cylch gorchwyl yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cyfarwyddwyr 28 Tachwedd 2018.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>4.3 Cytunwyd i ychwanegu monitro perfformiad yr archwilwyr allanol i'r cylch gorchwyl a'i dderbyn.</p> <p>4.4 Nodwyd yr angen i drosglwyddo cyfrifoldeb y Polisi Buddsoddi i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, a diwygio'r cylch gorchwyl, yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Cyfarwyddwyr.</p> <p>4.5 Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol ar Yswiriant y Coleg wedi ei ychwanegu i'r rhaglen waith.</p> <p>4.6 Cytunwyd i gynnwys adroddiad cydymffurfiant fel eitem sefydlog ar yr agenda.</p> <p>4.7 Trafodwyd a chytunwyd ar amryw o ddiwygiadau i'w cynnwys yn y rhaglen waith.</p>	<p>Diwygio'r cylch gorchwyl cyn ei gyflwyno i'r BC Trosglwyddo cyfrifoldeb y polisi buddsoddi</p> <p>Eitem sefydlog ar gydymffurfiant Diwygio'r rhaglen waith</p>	<p>Hydref 2018</p> <p>Yn ystod 2019</p> <p>Bob cyfarfod</p> <p>Hydref 2018</p>
<p>5. Adroddiad yr Archwilwyr Allanol a Chyfrifon Blynyddol y Coleg 2018 (Eitemau 6 a 7)</p>	<p>5.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Allanol ar gyfer 2017/18 gan Aled Thomas.</p> <p>5.2 Nododd bod y cyllid craidd yn gyson â Llythyr Gorchwyl Llywodraeth Cymru.</p> <p>5.3 Nododd bod diffyg ar 31 Mawrth 2018 o gymharu â 2017. Trafodwyd newidiadau ym mhatrwm cyllido'r Coleg. Adroddodd y Cofrestrydd mai cyd-destun symud o gynllun staffio i grantiau pynciol oedd yn egluro elfen o hyn. Nodwyd byddai mwy o wahaniaeth ymhen blwyddyn wrth i'r grantiau cynllun staffio raddol leihau.</p> <p>5.4 Cyfeiriwyd at y ffaith bod FRS102 yn ei ail flwyddyn a'i fod wedi cael llai o effaith eleni.</p> <p>5.5 Argymhellwyd bod staff a chyfarwyddwyr yn cyflwyno eu treuliau erbyn 31 Mawrth i hwyluso gwaith cyfrifyddu.</p> <p>5.6 Cafwyd cyflwyniad ar Gyfrifon Blynyddol y Coleg ar gyfer 2018 gan Aled Thomas.</p> <p>5.7 Trafodwyd rhwymedigaethau tâl gwyliau a thâl pensiwn USS.</p>	<p>Treuliau i'w cyflwyno erbyn 31 Mawrth yn flynyddol</p>	<p>Parhaol</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	5.8 Derbyniwyd y Cyfrifon i'w cyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 28 Tachwedd 2018 ar gyfer cymeradwyaeth. 5.9 Diolchwyd i'r Archwilwyr Allanol yn ffurfiol am eu gwaith.	Cyflwyno'r Cyfrifon i'r BC	28 Tachwedd 2018
6. Argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol (Eitem 8)	6.1 Cafwyd diweddariad ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Archwilwyr Allanol ers 2015 gan y Cofrestrydd. 6.2 Nodwyd bod yr argymhellion wedi'u gweithredu'n llawn a chytunwyd nad oedd angen ail-edrych ar yr argymhellion hyn eto. 6.3 Cytunwyd i ychwanegu colofnau yn nodi pa swyddog sydd yn gyfrifol am weithredu'r argymhelliad, ac erbyn pryd. Cytunwyd y byddai rhestr o argymhellion o Chwefror 2017 ymlaen yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn flynyddol.	Adolygu argymhellion yr archwilwyr mewnol ac allanol o Chwefror 2017 ymlaen	Yn flynyddol
7. Archwilwyr Mewnol: adroddiad cynnydd a GDPR (Eitem 9)	7.1 Cafwyd adroddiad cynnydd ar waith yr Archwilwyr Mewnol gan Carol Warburton. 7.2 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylai'r Archwilwyr Mewnol gyflwyno adroddiad ar broses y grantiau pynciol ar gyfer y cyfarfod nesaf a gallai'r Archwilwyr Mewnol newydd archwilio'r cynllun yn llawn. 7.3 Cafwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) gan Carol Warburton. 7.4 Adroddwyd er bod yr adroddiad yn cynnig sicrwydd cymedrol yn unig fod gwaith mawr wedi ei chwblhau gan y Coleg i gydymffurfio â'r rheoliadau diogelu data ac nad oedd modd cwblhau rhai elfennau nes bod rhai prifysgolion wedi dychwelyd cytundebau i'r Coleg. 7.5 Nodwyd mai Rhys Williams, Rheolwr Systemau, yw Swyddog Diogelu Data'r Coleg.	Adroddiad grantiau pynciol	22 Chwefror 2019

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>7.6 Adroddwyd y bydd proses gaffael yn dechrau i bwrcasu gwefan newydd a system rheoli cysylltiadau yr wythnos hon.</p> <p>7.7 Derbyniwyd yr adroddiad gyda'r argymhelliad i ail-adolygu GDPR ymhen blwyddyn.</p> <p>7.8 Cafwyd cyflwyniad llafar gan Carol Warburton ar fesuriadau archwilio mewnol. Cytunwyd i ddarparu'r mesuryddion i swyddogion y Coleg.</p>	<p>Ychwanegu GDPR i raglen waith yr archwilyr mewnol newydd CW i rannu'r mesuryddion</p>	<p>Cyn diwedd 2019</p> <p>Hydref 2018</p>
<p>8. Y Gofrestr Risg (Eitem 10)</p> <p>Ar y pwynt hwn gadawodd yr Athro Iwan Davies y cyfarfod</p>	<p>8.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Gweithredu ar y Gofrestr Risg. Darparwyd adroddiad ar y diweddariadau i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf.</p> <p>8.2 Nodwyd gwerthfawrogiad yr Athro Iwan Davies bod y gofrestr risg wedi ei grynhoi i 6 risg strategol clir yn dilyn ei argymhelliad.</p> <p>8.3 Argymhellwyd bod Cadeirydd y pwyllgor a'r Cofrestrydd yn parhau i drafod gyda Peter Curran yn rheolaidd dyheadau risg y Coleg.</p> <p>8.4 Argymhellwyd rhannu'r Gofrestr Risg gyda'r archwilyr mewnol posibl a wahoddir ar gyfer cyfweiliad.</p> <p>8.5 Yn dilyn trafodaeth derbyniwyd y diweddariadau i'r gofrestr i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i'w ystyried yn llawn.</p>	<p>WC, DT a PC i drafod</p> <p>Cofrestr Risg – proses tendr AM</p> <p>Cofrestr Risg i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr</p>	<p>Cyn diwedd 2018</p> <p>Ionawr 2019</p> <p>28 Tachwedd 2018</p>
<p>9. Polisi Buddsoddi'r Coleg (Eitem 11)</p>	<p>9.1 Cyflwynwyd polisi Buddsoddi'r Coleg yn dilyn ymgynghoriad â Sarasin, rheolwyr buddsoddi'r Coleg, gan y Cofrestrydd.</p> <p>9.2 Nodwyd bod sawl elusen yng Nghymru yn mabwysiadu safbwynt moesegol cyn gryfed â hwn.</p> <p>9.3 Trafodwyd y polisi cronfeydd wrth gefn yng nghyd-destun y polisi buddsoddi ac argymhellwyd adolygu'r polisi yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Adolygu polisi cronfeydd wrth gefn</p>	<p>22 Chwefror 2019</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	9.4 Derbyniwyd y polisi i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 28 Tachwedd 2018.		
10. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg (Eitem 12)	10.1 Cyflwynwyd adroddiad drafft y Pwyllgor Archwilio a Risg gan y Cofrestrydd. 10.2 Trafodwyd amseriad cyflwyno'r adroddiad i'r pwyllgor. 10.3 Nodwyd rhai diwygiadau i'r testun a chytunwyd i gyflwyno'r adroddiad at sylw'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 28 Tachwedd 2018.	Ystyried newid amserlen cyflwyno'r adroddiad blynyddol	Mai 2019
11. Adroddiad Blynyddol Yswiriant y Coleg (Eitem 13)	11.1 Cyflwynwyd adroddiad blynyddol Yswiriant y Coleg gan yr Ysgrifennydd. 11.2 Trafodwyd camau rheoli diogelwch seibr a'r goblygiadau yswiriant. Argymhellwyd bod angen bodloni "Cyber Essentials". 11.3 Derbyniwyd yr adroddiad.		
12. Adroddiad blynyddol cydymffurfio	12.1 Derbyniwyd adroddiadau cryno ar geisiadau ac ymatebion rhyddid gwybodaeth; achosion o doriadau data; ceisiadau o wrthrych data; achosion o chwythu'r chwiban; rhoddion a lletygarwch; a thendrau sy'n gwyr o'r arfer. 12.2 Trafodwyd ymestyn cytundebau rhai o'r tendrau a oedd yn gwyr o'r arfer ac yn benodol penodi unigolyn ar gyfer trefniadau Pafiliwn Gwyddoniaeth yr Eisteddfod Genedlaethol. Derbyniwyd cyd-destun yr achos eithriadol hwn ond argymhellwyd cadw at y polisi caffael arferol yn y dyfodol.		
13. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	13.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf yng Nghaerdydd: <ul style="list-style-type: none"> • 22 Chwefror 2019, 10.00-12.30 		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<ul style="list-style-type: none"> • 22 Mai 2019, 10.00-12.30 15.2 Diolchwyd i Nia Davies am gyfieithu ar y pryd.		